**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

10 Chwefror 2016

Annwyl William

Rwy'n gwerthfawrogi diddordeb parhaus y Pwyllgor mewn gwneud yn siŵr bod Cymru'n gwneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd ymarferol sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o TEN-T, yn enwedig y potensial ar gyfer prosiectau ar y cyd ag Iwerddon. I'r perwyl hwn roeddwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau.

Rydym wedi bod yn ymgysylltu ymhellach ag Iwerddon a'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru i ystyried a nodi cynigion posibl o dan alwad bresennol Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF), gan ganolbwyntio ar gysylltiadau ag Iwerddon. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion o dan yr alwad bresennol yw 16 Chwefror.

Rydym wedi bod yn trafod ag un o asiantau Llywodraeth Iwerddon sef y Swyddfa Datblygu Morol (IMDO), porthladd Dulyn ac Irish Rail, yn ogystal â pherchenogion porthladdoedd a gweithredwyr llongau yng Nghymru. Mae'r trafod hwnnw wedi cwmpasu prosiectau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth strategol sy'n codi o raglen Horizon Wylfa B, gwaith Moderneiddio Rheilffyrdd Gogledd Cymru a'r Metro a allai fodloni meini prawf llym cynigion CEF.

Yn sgil yr ymgysylltiad hwn, mae consensws ymhlith rhanddeiliaid, gan gynnwys perchenogion seilwaith, nad yw'n debygol y bydd unrhyw brosiectau sy'n addas o ran aeddfedrwydd ac ymrwymiad yn codi o dan yr alwad hon.

Roedd pawb o blaid parhau â'r ddeialog, gan adlewyrchu'r adborth a gafodd y pwyllgor ar ôl ymweld ag Iwerddon y llynedd. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y berthynas a'r trafodaethau hyn gyda bwriad i weithio ar brosiectau ar y cyd a allai fod yn addas ar gyfer cynigion o dan alwad gyllido nesaf TEN-T.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.edwina.Hart@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Roedd y trafodaethau ag IMDO yn ymdrin â chyfleoedd cyllido Ewropeaidd eraill, yn enwedig INTERREG. Byddwn yn parhau i ystyried y potensial ar gyfer prosiectau twristiaeth a phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y cyd ag Iwerddon.

Edwina Hart